**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Jenny,

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Yn ystod y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 29 Tachwedd 2022, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau mewn mwy o fanylder ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion eich Pwyllgor.

Fel y dywedais yn ystod y ddadl, rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ystyriol yng Nghyfnod 1, ac am argymhelliad 1 a oedd yn cadarnhau bod y mwyafrif o'r Pwyllgor yn cytuno y dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

Mae argymhelliad 2 yn argymhelliad eang sy'n cael ei dderbyn mewn egwyddor ar y seiliau a ganlyn:

i. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol fel rhan o'n gwaith o adnewyddu'r Ddamcaniaeth Newid. Bydd ymchwil Damcaniaeth Newid yn ein galluogi i nodi'r allbynnau a'r canlyniadau allweddol a ddisgwylir yn sgil y Bil a'r data sydd eu hangen i fonitro a gwerthuso cynnydd. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl nodi canlyniadau a metrigau allweddol yn ymwneud â mentrau polisi penodol a allai ddeillio yn y dyfodol o waith y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol; neu mewn perthynas â gweithredu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol gan gyrff cyhoeddus penodedig; neu ynghylch sut y gall cyrff cyhoeddus weithredu'r gwelliant 'Gwaith Teg' i'r nod "Cymru Lewyrchus" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn oherwydd nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd ar ba faterion y bydd y Gweinidogion yn gofyn i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol am gyngor, neu ar ba faterion y bydd y Cyngor yn dewis canolbwyntio, neu sut y bydd y dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus yn dylanwadu ar eu penderfyniadau a'u gweithredoedd yn y dyfodol. I bennu metrigau a chanlyniadau byddai'n ofynnol inni

ragfarnu’r holl bethau hyn neu wneud rhagdybiaethau a allai fod yn anghywir yn y pen draw

ii. Cyn belled ag y mae'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn y cwestiwn, rydym wrthi’n gweithio drwy ganlyniadau a metrigau fel rhan o'r prosiect Gwerth Cymdeithasol, er na fydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mewn pryd inni rannu'r canlyniadau â'r Pwyllgor yn rhan o'r broses graffu. Fodd bynnag, bydd ein fframwaith gwerthuso yn cael ei gyhoeddi maes o law

iii. Rydym yn diweddaru'r Memorandwm Esboniadol a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac, er ein bod wedi ein bodloni ein bod wedi cyfleu gweledigaeth gyffredinol y Bil yn glir, yn rhan o'r gwaith hwnnw byddwn yn ystyried sut y gallwn ddatblygu ymhellach y naratif sy'n sail i'r Bil

O ran argymhelliad 3 sy’n argymell ein bod yn nodi cylch gwaith ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cadarnheais yn ystod y ddadl na fyddai Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ar y sail bod y Bil ei hun yn diffinio swyddogaethau'r Cyngor a’r ffordd y bydd yn cael ei gyfansoddi, yn ogystal â rhoi pwerau a swyddogaethau atodol eang iddo ar drywydd y swyddogaethau hynny, sydd yn gydbwysedd cywir ym marn Llywodraeth Cymru. Mae gwaith eisoes ar y gweill gyda phartneriaid cymdeithasol, drwy'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, i fraenaru'r tir ar gyfer y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ymarferol a thrafodaethau ar raglen waith gychwynnol. Byddaf yn rhoi diweddariadau i’r Pwyllgor ar waith y Fforwm.

Derbynnir Argymhelliad 4, a bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd i ymgynghori ag aelodau eraill y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol cyn gwneud diwygiadau i weithdrefnau'r Cyngor.

Ni dderbynnir argymhellion 5 a 6. Yn unol â'm hymateb i argymhelliad 3 uchod, ac fel y dywedais yn ystod y ddadl, mae Llywodraeth Cymru o’r farn y dylai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol gael hyblygrwydd i benderfynu ar ei ffyrdd ei hun o weithio - gan gyd-fynd ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol. Ni fyddai unrhyw beth yn y Bil yn atal dull gorchwyl a gorffen ar gyfer rhywfaint o waith y Cyngor neu ei waith i gyd. Nid ydym chwaith yn bwriadu darparu mewn deddfwriaeth ar gyfer unrhyw is-grwpiau ychwanegol. Eto, y Cyngor fydd i benderfynu pa is-grwpiau y mae am eu sefydlu yng nghyd-destun ei raglen waith a fydd yn newid a datblygu dros amser.

Derbynnir argymhelliad 7 mewn egwyddor. Ar hyn o bryd rwy'n ystyried dulliau gweithredu posibl a fyddai'n ceisio sicrhau bod aelodau undeb penodol nad ydynt yn perthyn i TUC Cymru yn cael eu cynrychioli ar y Cyngor. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto cyn ein sesiwn Pwyllgor yng Nghyfnod 2 i roi gwybod am fy amcanion o ran y mater hwn.

Derbynnir argymhelliad 8. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod yn rhaid i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol adlewyrchu pob cefndir yng Nghymru, ac rydym eisoes yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol, drwy'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, er mwyn sicrhau bod penodiadau i'r Cyngor mor eang a chynrychioladol ag y gallant fod.

Gwrthodir argymhelliad 9. Nodais yn fanwl yn ystod y ddadl egwyddorion cyffredinol y rhesymau pam nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen mecanwaith cyfryngu neu ddatrys anghydfodau. Mae’r ddyletswydd yn adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus geisio yn hytrach na sicrhau consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig neu eu cynrychiolwyr staff wrth osod eu hamcanion llesiant. Os, am ba bynnag reswm, nad yw'n bosibl dod i gytundeb er bod pob ymdrech wedi’i gwneud, bydd y ddyletswydd i geisio consensws neu gyfaddawd er hynny yn cael ei gollwng. I bob pwrpas,

ni fyddai unrhyw achos i gyfryngu rhwng y ddau barti dan sylw. Pan fo pryderon ynghylch sut mae corff cyhoeddus yn mynd ati i ollwng ei swyddogaethau statudol, mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau i ymchwilio i gwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus, gan gynnwys cwynion am gamweinyddu, ac mae rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli a gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut maent yn sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn y pen draw, gellir herio gweithredoedd cyrff cyhoeddus yn y llysoedd.

Derbynnir argymhelliad 10 ar y sail ein bod eisoes wedi ymrwymo i lunio canllawiau penodol ar Waith Teg. Bydd hyn yn cefnogi cyrff cyhoeddus i osod amcanion sy'n gwneud y gorau o gyfraniad y corff at waith teg fel rhan o nod llesiant Cymru Lewyrchus a'r camau y gallant eu cymryd. Er hynny, fel sy’n wir yn awr, cyrff cyhoeddus fydd yn penderfynu ar eu hamcanion a'r camau y byddant yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny fel rhan o'u dyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Roedd yr amser byr a oedd gennyf i ymateb yn ystod y ddadl yn golygu nad oeddwn yn gallu egluro'n llawn pam nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu derbyn argymhellion 11 a 12 sy'n ymwneud â rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfrifoldebau byd-eang cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

O ran argymhelliad 11, ni fydd y Bil yn gosod unrhyw ddyletswyddau, pwerau, na rhwymedigaethau ychwanegol ar y Comisiynydd. Bydd angen i swyddfa'r Comisiynydd, fel unrhyw gorff arall, ymwneud â'r agenda partneriaeth gymdeithasol wrth iddi ddod yn rhan ganolog o sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru. Y Comisiynydd sydd i benderfynu ar ei flaenoriaethau wrth gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd Gwaith Teg yn un o nifer o ddeilliannau a ddisgrifir yn y saith nod llesiant y bydd y Comisiynydd yn cyfrannu atynt drwy ei waith ar hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lywio sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio. O ran cyllid y Comisiynydd, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar hyn o bryd yn ystyried yr amcangyfrif statudol gan swyddfa'r Comisiynydd yn rhan o drafodaethau parhaus am y gyllideb. Os penderfynir bod angen cyllid ychwanegol ar y Comisiynydd i gefnogi'r cyrff ychwanegol arfaethedig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i'r Pwyllgor.

Hoffwn hefyd ychwanegu at yr hyn a ddywedais yn y Cyfarfod Llawn mewn perthynas ag argymhelliad 12, sy'n argymell ein bod yn cyflwyno gwelliant i'r Bil ynghylch y nod llesiant o ran cyfrifoldebau byd-eang, ac i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Masnach Deg Cymru ac eraill yn eu nodyn briffio i’r Aelodau. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â sut y diffinnir "ardal" sefydliad contractio yn adran 22(3) o'r Bil fel "ardal y mae’r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau ynddi yn bennaf, gan ddiystyru unrhyw ardaloedd y tu allan i Gymru" (na all y Bil wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hwy). I fod yn glir, mae'r ddarpariaeth "diystyru" hon yn cyfeirio at lle y gall swyddogaethau corff weithredu neu gael eu gollwng, sef, ar gyfer deddfwriaeth a wneir gan y Senedd, Cymru. Nid yw'n atal awdurdod contractio rhag ystyried materion fel caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi dramor neu faterion amgylcheddol ar draws y byd. Ac, i'r graddau bod awdurdodau'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd hi’n ofynnol iddynt gymryd camau i gyfrannu at y nod llesiant Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, sy'n golygu bod rhaid iddynt ystyried a all camau penodol wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang wrth gyflawni eu dyletswyddau llesiant. Dywedais yn ystod y ddadl y byddwn yn trefnu i gyfarfod â chynrychiolwyr y sefydliadau hynny a gyflwynodd y nodyn briffio. Byddaf yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am ganlyniad y cyfarfod hwnnw ar ôl iddo gael ei gynnal.

O ran argymhelliad 13, y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn, byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y bydd trafodaethau pellach wedi'u cynnal â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Comisiwn Elusennau mewn perthynas ag effeithiau posibl rhoi'r cyrff hyn o fewn cwmpas dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol y Bil.

Mewn perthynas ag argymhelliad 14, sydd hefyd yn cael ei dderbyn, byddwn yn nodi manylion pellach yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig i egluro sut mae'r ddyletswydd Caffael Cyhoeddus, a nodir yn y Rheoliadau sydd yn atodol i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, a'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Bil, yn cyd-fynd â'i gilydd.

O ran argymhelliad 15, fel y nodais yn ystod y ddadl, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylw y dylem fod yn defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi economi Cymru ac y gallai hyn o bosibl gael ei gyflawni drwy osod targedau. Fodd bynnag, nid ydym o reidrwydd yn cytuno â barn y Pwyllgor y byddai cynnwys targedau ar wyneb y Bil yn 'sicrhau bod nodau'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn cael eu gwireddu'. Mae trafodaethau â phartneriaid yn parhau mewn perthynas â'r mater hwn, a byddaf yn rhoi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor am ganlyniad y trafodaethau hynny cyn sesiwn y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 ym mis Ionawr.

Derbynnir argymhelliad 16, yn amodol ar ganlyniad y trafodaethau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn perthynas ag argymhelliad 15. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor nodi, er y bydd y Llywodraeth yn edrych ar ffyrdd o gynnwys cyfeiriad y contractwr ar gyfer pob contract ar y gofrestr, bydd cynnwys 'unrhyw wybodaeth arall ofynnol i hwyluso'r gwaith monitro a chasglu data sydd ei angen ar gyfer gosod targedau caffael' yn anodd ar hyn o bryd o ystyried nad ydym eto mewn sefyllfa i nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei fesur ac felly pa ddata fydd ei angen i asesu cyfraniad caffael i economi Cymru. O ran argymhelliad 15, bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor ar y pwynt hwn unwaith y gwneir penderfyniad yn dilyn trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol. Dylid nodi hefyd mai diben y gofrestr contractau yw cynorthwyo tryloywder i gyflenwyr posibl ac ati. Bydd data yn cael eu casglu a'u hadrodd yn rhan o'r broses adrodd flynyddol.

O ran argymhelliad 17, sy'n cael ei dderbyn, byddaf yn sicrhau bod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn cynnwys manylion pellach yr hyfforddiant caffael a rheoli contractau a fydd yn cael ei roi ar waith i gefnogi'r sector cyn gweithredu.

Mae argymhelliad 18 yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r rolau a'r berthynas rhwng y Ganolfan Ragoriaeth Caffael ac is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a sut y mae'n bwriadu sicrhau y bydd y Ganolfan Ragoriaeth Caffael ac is-grŵp caffael y Cyngor yn chwarae rhan wrth yrru'r agenda gydweithredu a gwella yn ei blaen. Mae Canolfan Ragoriaeth Caffael wrthi'n cael ei sefydlu. Nid yw ei sefydlu wedi'i gynnwys yn y Bil hwn. Fodd bynnag, os caiff ei phasio, bydd y ddeddfwriaeth newydd hon angen ei herio a'i chefnogi. Bydd Is-grŵp Caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn rhan o'r swyddogaeth herio, ynghyd â threfniadau eraill ar gyfer goruchwylio a fydd eu hangen i gwmpasu diwygio caffael yn fwy cyffredinol. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth, ar ôl ei sefydlu, yn rhan o'r swyddogaeth gefnogi. Bydd y ddau yn gweithio gyda'i gilydd gan y bydd y swyddogaeth herio (Is-grŵp y Cyngor a'r swyddogaeth goruchwylio) yn nodi lle mae angen mwy o gefnogaeth (gan gynnwys o'r Ganolfan Ragoriaeth) i alluogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol o dan y Bil hwn. Drwy ddarparu'r eglurhad hwn, rwyf o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad 18.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn argymhelliad 19. Gallaf gadarnhau y byddwn yn gweithio gyda chyrff o fyd diwydiant a chynrychiolwyr sy'n ymwneud â chaffael adeiladu i ddatblygu canllawiau cadarn ar sut y dylid rhannu risgiau a rhwymedigaethau caffael cymdeithasol gyfrifol drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan. Mae hyn eisoes yn ystyriaeth bwysig ar

gyfer datblygu cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol a'r canllawiau statudol ategol. Er ei bod yn fwy heriol mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â diwylliant ac ymddygiad drwy ddeddfwriaeth, dylai'r gofynion adrodd helpu i nodi perfformiad da a pherfformiad gwael.

Rydym hefyd yn derbyn argymhelliad 20 a byddwn yn sicrhau bod gofynion adrodd sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon yn cael eu symleiddio i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr angen i gynyddu tryloywder, lleihau'r baich gweinyddol ar gyrff cyhoeddus, ac osgoi dyblygu gofynion adrodd o ddyletswyddau eraill.

Mae argymhelliad 21 yn gofyn inni ddarparu rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd ymchwiliadau caffael yn rhyngweithio â'r pwerau sy'n bodoli eisoes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedais yn ystod y ddadl bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Soniais hefyd, fodd bynnag, y bydd angen inni aros nes bod yr is-ddeddfwriaeth sydd i’w gwneud o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU, a’r trefniadau goruchwylio sydd i'w rhoi ar waith o dan y Ddeddf honno, yn cael eu cyflwyno cyn y gallwn ddisgrifio'n llawn sut y bydd y gwahanol gyrff hyn yn cydweithio yng Nghymru. Felly, er fy mod yn ymrwymo i ddarparu'r eglurhad hwn, mae'n annhebygol iawn y byddaf yn gallu gwneud hynny cyn i’r Senedd yn gorffen craffu ar y Bil hwn.

O ran argymhelliad 22, eglurais yn ystod y ddadl pam nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi'r argymhelliad hwn. Credwn na fyddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r archwilydd cyffredinol cyn cyhoeddi pob ymchwiliad gan y dylai penderfyniadau o'r fath gael eu gwneud yn ôl disgresiwn y Gweinidogion. Mae argymhelliad 22 hefyd yn gofyn inni nodi'r meini prawf a fyddai'n sbarduno ymchwiliad o dan adran 41. Mewn ymateb i'r pwynt hwn, byddaf yn rhoi enghreifftiau manylach i'r Pwyllgor o'r mathau o amgylchiadau a allai sbarduno ymchwiliad cyn sesiwn y Pwyllgor yng Nghyfnod 2.

Nodais hefyd yn ystod y ddadl pam y byddwn yn gwrthod argymhelliad 23. Eglurais ein barn y byddai darpariaethau ar wyneb y Bil yn manylu ar y meini prawf a fyddai'n sbarduno ymchwiliad o dan adran 41 yn rhy gyfyng. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau bod rhestr nad yw’n gynhwysfawr o feini prawf wedi'i chynnwys yn y canllawiau y byddwn yn eu cyhoeddi i gefnogi'r rhan hon o'r Bil, sef y lle priodol ar ei chyfer.

Derbynnir argymhelliad 24 mewn egwyddor yn unig ar y sail bod Llywodraeth Cymru yn fodlon ymrwymo i gyhoeddi'r canllawiau statudol ar ffurf drafft am chwe wythnos o ymgynghoriad o leiaf, ond nad ydym yn derbyn y dylai fod gofyniad penodol ar Weinidogion i ymgynghori â'r Senedd fel rhan o'r ymarfer hwnnw. Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd yr ymgynghoriad y bydd yn ei gynnal gyda rhanddeiliaid ar y canllawiau statudol drafft yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac wedi'u hanelu at y gynulleidfa y cyfeirir ati.

O ran argymhelliad 25, cadarnheais yn ystod y ddadl bod yr argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn, a bod gwaith eisoes ar y gweill i ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol – er, fel nodais yn glir yn y Cyfarfod Llawn, mae cyfyngiad o ran yr hyn sy'n bosibl gydag amcangyfrif costau ariannol ac arbedion mewn ymarferion o'r fath. Fel sy'n arferol, byddwn wrth gwrs yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol wrth ymgymryd â'r gwaith pellach hwn.

Derbynnir argymhelliad 26 hefyd. Fel y dywedais yn ystod y ddadl, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn y Pwyllgor ei bod yn bwysig inni ystyried a fydd angen amser cyfleuster ychwanegol i undebau llafur gyflawni eu rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r Bil. Soniais ein bod ar hyn o bryd yn cynnal prosiect yn ymgynghori â chyflogwyr a chynrychiolwyr undebau i ddeall yn well ffyrdd cyfredol o weithio ac i archwilio'r effaith bosibl y gallai'r gofynion ychwanegol hyn ei chael ar lefel leol. Fodd bynnag, rydym eisoes yn gwybod bod lefel yr amser cyfleuster sydd ar gael ar hyn o bryd yn amrywio'n fawr ar draws cyflogwyr, ac y bydd hyn yn parhau i fod yn wir ar ôl gweithredu. Yn ogystal â hyn, mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhyddhau amser cyfleuster hefyd yn amrywio'n sylweddol ac yn aml yn

ddibynnol ar rôl sylweddol unigolion penodol. Mae modelu'r costau a'r manteision posibl ar draws y darn felly yn anodd iawn, ond byddwn yn darparu cymaint o fanylion ychwanegol ag y gallwn eu cael yn yr amser sydd ar gael cyn y bydd yn ofynnol inni osod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Mae argymhelliad 27 yn argymell ein bod yn cyhoeddi’r "agenda, y cofnodion a'r allbynnau ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ers dechrau'r pandemig yn 2020. Er mwyn galluogi tryloywder, dylid cyhoeddi'r dogfennau hyn cyn diwedd 2022". Yn y ddadl dywedais fod y Llywodraeth yn gwrthod yr argymhelliad hwn, ond mewn ymateb i argymhelliad 28, yr ydym yn ei dderbyn mewn egwyddor, byddem yn darparu adroddiad cryno i'r Pwyllgor ar waith y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol. Nid ydym yn derbyn argymhelliad 27 oherwydd nid ydym yn rhannu barn y Pwyllgor y byddai cyhoeddi'r dogfennau hyn “yn unol â'r hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol" ac y byddai'n "llywio gwaith y Fforwm [Partneriaeth Gymdeithasol]". Sefydlwyd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn benodol iawn fel fforwm i fynd i'r afael â heriau'r pandemig, ac o'r herwydd ni fyddai agendâu a chofnodion y cyfarfodydd eu hunain o unrhyw fudd ymarferol i'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith sydd bellach ar y gweill o ran braenaru’r tir ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad y byddaf yn ei ddarparu i'r Pwyllgor yn dangos sut y bu dull gweithredu partneriaeth gymdeithasol yn effeithiol o ran sicrhau bod y Gweinidogion yn gallu ystyried ystod o wahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau ar faterion cymhleth yn ystod y pandemig.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth yn y llythyr hwn o fudd i’r Pwyllgor. Ysgrifennaf atoch eto cyn inni ailgynnull ar gyfer ein hystyriaethau yng Nghyfnod 2 ym mis Ionawr i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag argymhellion 3, 7, 11, 12, 13, 15, 22 a 28. Byddaf hefyd yn sicrhau y rhoddir gwybod i Glerc y Pwyllgor cyn gynted ag y bydd gwelliannau’r llywodraeth yng Nghyfnod 2 wedi’u cyhoeddi ar y dudalen we Dogfennau a Osodwyd.

Er gwybodaeth, mae copïau ynghlwm o’r llythyrau yr wyf wedi’u hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a’r Pwyllgor Cyllid, ac rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor hynny hefyd.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership